# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mercher, Chwefror 20 2013 am 9.30 y bore.

## PRESENNOL

Cynghorwyr D Owens (Cadeirydd), I W Armstrong, B Blakeley J A Butterfield, W L Cowie, J.M. Davies M Ll. Davies (is gadeirydd), R J Davies, S.A. Davies, H.H. Evans (aelod lleol), C. L. Guy-Davies, M Holland (aelod lleol), C. Hughes, T.R. Hughes, E.A. Jones, P M Jones, M McCarroll, W M Mullen-James, R M Murray, P W Owen, T M Parry, A Roberts D Simmons, W.N. Tasker, J Thompson-Hill, J S Welch, C H Williams a H O Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Rheoli Datblygiad (Paul Mead), Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Prif Gyfreithiwr – (Cynllunio a Phriffyrdd) (Susan Cordiner), Arweinydd Tîm (Cefnogi) (Gwen Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams), Swyddog Priffyrdd (Mike Parker), Swyddog Cynllunio (Mwynau a Gwastraff) (Martha Savage) a Chyfieithydd (Catrin Gilkes).
Mynychodd y Swyddogion Cynllunio, Cynllun Datblygu Lleol (Lara Griffiths a Bryn Bowker) ran o'r cyfarfod

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd J.A. Davies, R L Feeley, H Hilditch-Roberts, a C L Williams a'r Pennaeth Cynllunio (Graham Boase),

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Mynegodd y Cynghorydd M Parry fod ganddo ddiddordeb yng nghais 22/2012/1363
Roedd y Cynghorydd H.O. Williams am nodi mewn perthynas â chais 22/2012/1363 Tir ger Llidiart Fawr, Llangynhafal, nad yw wedi cael unrhyw gysylltiad gyda'r ymgeisydd a'i fod yn gwadu fod unrhyw wrthdaro buddiannau.

## 3 EITEMAU BRYS: Dim

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR IONAWR 23, 2013.

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar gywiro gwall teipio:
Dylai'r pleidleisio ynghylch 46/2012/0719 – Tir i'r Gogledd o Bryn Gobaith Llanelwy ddarllen:

CANIATAU - 19
GWRTHOD - 1
ATAL - 0

## 5 CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelwch Cyhoeddus (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru ceisiadau oedd wedi'u cyflwyno ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor wneud penderfyniad arnynt.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u ceir o fewn yr adroddiad a gyflwynwyd, ac y dylid naill ai ganiatáu neu wrthod, fel ag sy'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Tref a Sir (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, y Ddeddf Gynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysu Cynllunio Tref a Sir 1991 a/neu Ddeddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 y cynigion sy'n rhan o'r ceisiadau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd:-*

**Cais Rhif:** 15/2011/0692/PF

**Lleoliad:** **Chwarel Maes y Droell Ffordd Graianrhyd Llanarmon yn Ial Yr Wyddgrug**

**Disgrifiad:** Mewnforio deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer ailgylchu a'u defnyddio i adfer gwaith y chwarel

Dosbarthwyd adroddiad y panel archwilio safle, a ddigwyddodd ar Ddydd Gwener, Chwefror 1, 2013 ynghyd â chrynodeb o sylwadau hwyr oddi wrth Mr & Mrs. Thomas, Longhope Cottage, Graianrhyd.

**Siaradwyr Cyhoeddus:**

Mewn ymateb i geisiadau, mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cytuno yn yr achos hwn y dylai uchafswm o ddau berson annerch y Pwyllgor, yn siarad yn erbyn, neu o blaid y cais.

**YN ERBYN:**

Siaradodd Carolyn Thomas yn erbyn y cais.
Mae Ms. Thomas yn Gynghorydd Sir Y Fflint dros Ward Treuddyn, sy'n ffinio'r safle. Esboniodd y Cynghorydd Thomas bod yr A5104 yn dwyrannu'r cymunedau yn ei ward, gan ddarparu llwybr hamdden i feicwyr. Ychydig iawn o dai ar hyd y ffordd sydd â gerddi o'u blaenau ac maen nhw'n dioddef dirgrynu a llygredd o lorïau mawr. Mae cymaint o draffig yn golygu nad yw cerdded yn ddymunol. Mae arwyneb y ffordd eisoes yn wael a byddai mwy o draffig yn achosi niwed ac aflonyddwch pellach.

**YN ERBYN:**

Siaradodd Dr. Adam Mackeridge yn erbyn y cais.
Mae Dr Mackeridge yn byw ger y chwarel ac roedd yn gofidio bod swyddogion yn gorfodi gormod (31) o amodau; roedd hefyd yn teimlo na fyddai modd gorfodi'r amodau hynny. Teimlai nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i roi i warchod rhag sŵn ar gyfer ardaloedd i'r de a'r dwyrain o'r chwarel, a byddai agor y bwnd gwarchodol presennol yn cynyddu sŵn a llwch. Ofnai y byddai'r niwsans yn parhau i ddylanwadu ar fywydau ei deulu ifanc am sawl blwyddyn i ddod.

**O BLAID**:

Siaradodd Mr Steve Blunt o blaid y cais.
Esboniodd Mr. Blunt bod y cwmni wedi ymgymryd â'r chwarel i echdynnu tywod silica a bod modd parhau i wneud hynny am 30 mlynedd. Fodd bynnag, roeddent yn awyddus i adfer y tir wrth fynd yn eu blaenau a byddai mewnforio clai, pridd a deunyddiau anadweithiol tebyg o safleoedd dymchwel yn cyflymu'r adferiad. Gan fod y gwastraff yn anadweithiol, dywedodd Mr. Blunt na fyddai unrhyw niwsans o ran fermin na llwch, a byddai gweithgareddau yn cael eu monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd Mr. Blunt o'r farn y byddai unrhyw sŵn yn ddwfn o fewn y chwarel ac felly ni fyddai'n aflonyddu ar gymdogion.

Dywedodd Ms Martha Savage (Swyddog Cynllunio, Mwynau a Gwastraff) wrth y pwyllgor bod echdynnu silica yn y chwarel hon wedi dechrau yn 1880 a bod caniatâd ganddi i barhau hyd 2042. Nid oedd gwaith y chwarel dan ystyriaeth.

Mae swyddogion wedi ystyried y materion ynghylch Priffyrdd, gwastraff, llygredd a llwch yn ogystal â'r effaith ar Ardal o Harddwch Naturiol.

Nododd y Cynghorydd Martyn Holland (aelod lleol) bod y trigolion lleol yn derbyn y chwarel ond eu bod yn anhapus gyda'r cynnig rheoli gwastraff, yn enwedig yn nhermau priffyrdd, mynediad ac amwynder preswyl. Roedd o'r farn nad oedd y rhwydwaith ffyrdd yn addas ar gyfer y cynnydd mewn traffig a fyddai'n parhau am sawl blwyddyn. Esboniodd bod cynnig blaenorol wedi'i wrthod oherwydd mynediad a bod y cais newydd yn cynnig symud y fynedfa yn agosach at dafarn y Rose and Crown. Ar ôl ymweld â'r safle gyda Swyddogion Priffyrdd, roedd yn amlwg ei bod yn ffordd beryglus, gyda lorïau mawr yn dod rownd y tro ar yr ochr anghywir. Byddai'r fynedfa newydd yn torri drwy'r bwnd a adeiladwyd i warchod trigolion rhag llwch. Byddai sŵn o'r peiriannau malu yn niwsans preswyl. Roedd y Cynghorydd Holland o'r farn y byddai hyn yn amharu ar dai cyfagos, yn enwedig y ddau deulu a oedd yn byw gerllaw gyda phlant ifanc a fyddai dros 30 oed cyn bod y gweithgareddau hyn wedi dod i ben.

Rhoddodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies adroddiad o'r Ymweliad Safle. Roedd yn ystyried bod y tro yn y ffordd ger y fynedfa arfaethedig yn beryglus ond credai y byddai'r cynnig i wella'r tro yn helpu, ac y byddai traffig yn gwella ar ôl gosod cyfyngiadau "dim goddiweddyd". Roedd y Cynghorydd Lloyd Davies yn cydymdeimlo gyda thrigolion lleol ond credai y byddai'r amodau cynllunio yn fanteisiol iddynt.

Esboniodd Mr Mike Parker (Swyddog Priffyrdd) bod y cwmni'n wreiddiol wedi bwriadu defnyddio mynedfa a brofodd wedyn i fod yn anaddas. Byddai angen agoriad o 2.4m x 90m ar gyfer gweld ond ni fyddai modd gwneud hynny. Roedd Priffyrdd yn ymwybodol o gynnig i newid y fynedfa ond nid oeddynt wedi derbyn cynllun yn dangos bod modd sicrhau agoriad o'r fath, felly roeddynt yn argymell y dylid gwrthod y cais.

Mewn ymateb i bwyntiau penodol Cynghorwyr, nododd Mr Parker bod y ffordd wedi'i hasesu ar gyfer diogelwch traffig – cofnodwyd 11 damwain yn y 10 mlynedd diwethaf ond dim ar y ffordd ei hunan. Byddai modd gwella gwelededd. Nid oedd o'r farn bod y ffordd yn haeddu llinellau "dim goddiweddyd" ond byddai'n trafod y mater gyda Swyddogion Diogelwch Traffig. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Priffyrdd Lleol oedd cyflwr y ffordd, ac mae gofyn iddynt gynnal yr arwyneb i safon dderbyniol.

Rhoddodd y Cynghorydd Rhys Hughes enghraifft o'r niwed yr oedd cerbydau chwarel yn ei achosi yn ei ward ef, gan gynnig y dylid gwrthod y cais. Gofynnodd y Cynghorydd David Simmons pwy fyddai'n sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio gyda'r amodau.

Esboniodd Martha Savage bod Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn rhannu cyfrifoldeb am Fwynau a Gwastraff ac y byddai Sir y Fflint yn perfformio 2 ymweliad safle am dâl yn flynyddol i fonitro amodau, a mwy yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Roedd gan Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd rôl rheoleiddio.

Nododd Mike Parker nad oedd unrhyw wrthwynebiad o Hawliau Tramwy Cyhoeddus Priffyrdd ond eu bod am sicrhau bod y Llwybr Cyhoeddus yn cael ei warchod.

Roedd y Cynghorydd Martyn Holland yn deall bod cynnig pellach i sythu'r tro ger y fynedfa newydd a fyddai'n effeithio ar y Llwybr Cyhoeddus.
Dywedodd Mike Parker na allai roi sylw ar hyn gan nad oedd cynllun o'r fath wedi'i gyflwyno.

Dywedodd Martha Savage y gellid gosod amod "Math Grampian"; sef bod yn rhaid cyflwyno cynllun i sicrhau fod mynediad priodol yn cael ei gymeradwyo cyn i weithgareddau pellach ddechrau.
Nododd Ms. Savage bod y cynnig yn galluogi'r Awdurdod i fonitro adferiad y tir a sicrhau bod hynny'n digwydd cyn gynted â phosibl.

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a oedd yr amod i gyfyngu symudiadau gan gerbydau i 50 lori y dydd yn rhesymol, neu a oedd modd gostwng y nifer.
Roedd Mike Parker yn ystyried bod hyn yn rhesymol gan fod yr oriau agor yn golygu y byddai 12 symudiad yr awr.

Rhoddwyd crynodeb gan Paul Mead, Rheolwr Rheoli Datblygiad, a nododd y byddai amodau yn cael eu monitro. Pe byddai angen, byddai modd hysbysu'r Pwyllgor yn ddiweddarach o'r cynlluniau ar gyfer mynediad.

**Cynnig:**

Cynigiodd y Cynghorydd Rhys Hughes y dylid gwrthod y cais ar sail diogelwch priffyrdd ac amwynder preswyl.
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Cowie

Dyma ganlyniad y bleidlais:

**6 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**20 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY GWRTHODWYD RHOI CANIATAD**

Gwnaethpwyd y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad Swyddogion, oherwydd rhesymau yn ymwneud â diogelwch priffyrdd ac amwynder preswyl.

Penderfynwyd ymhellach y dylai swyddogion nodi'r rhesymau llawn dros wrthod, ac y dylid ymgynghori â'r Aelod Lleol cyn cyflwyno tystysgrif y penderfyniad.

**Cais Rhif:** 03/2012/1500/PF

**Lleoliad:** **The Llangollen Goods Junction Yard Abbey Road Llangollen**

**Disgrifiad:** Codi adeilad ffrâm ddur ar gyfer storio injans locomotif a rholstoc arall, ac ail-alinio'r cledrau presennol

Hysbysodd y Cynghorydd S. Davies y pwyllgor bod ychydig o bryder lleol ynghylch y cynigion hyn ond bod y pryderon wedi'u lleddfu wedi iddo ymweld â rhai tai cyfagos i esbonio'r cynnig. Gofynnodd a fyddai modd gosod amod i wella'r ffens derfyn.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd S. Davies y dylid RHOI CANIATAD yn amodol ar yr amod pellach ynghylch y ffens derfyn
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. Ll. Davies

Dyma ganlyniad y bleidlais

**23 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**1 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

***Yn amodol ar:*** yr amod newydd canlynol:

5. Ni chaiff datblygiad ddechrau hyd nes bod manylion o'r ffens derfyn arfaethedig ar hyd terfyn gogleddol y safle, gan gynnwys plannu a ffensio pellach, wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod hwnnw. Bydd yn rhaid i'r manylion sydd wedi'u cymeradwyo cael eu cwblhau cyn y gellir dechrau defnyddio'r adeilad.

Rheswm: er budd amwynder gweledol.

**Cais Rhif:** 07/2012/0539/PFT

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Sirior Llandrillo Corwen** |
| Disgrifiad: | Gosod 2 dyrbin gwynt micro-generadu 50kw gyda blwch rheoli a llwybr mynediad |

Nodwyd bod y llythyrau pellach canlynol wedi'u derbyn:

Gwrthwynebu:

John Roberts Bryn Eithin Gwyddelwern Corwen
EH Roberts Bronant Gwyddelwern Corwen
Carol Keys-Shaw a Philip Shaw Y Beudy Maesmor Maerdy
B & Y Gulland, Ty'n y Fron, Llandderfel

Cefnogi:

E. H. Roberts, Bronant, Gwyddelwern
G. W. Jones, Nanterwhaidd, Gwyddelwern
J. Roberts, Bronallt, Gwyddelwern

Dosbarthwyd adroddiad o'r ymweliad safle a ddigwyddodd ar 15 Chwefror 2013.

**Siaradwyr Cyhoeddus:**
**Yn erbyn:**
Siaradodd Mr Andrew Jedwell yn erbyn y cais gan ddweud ei fod yn dymuno ymhelaethu ar y cannoedd o wrthwynebiadau i'r cais hwn. Cyfeiriodd Mr Jedwell at harddwch Dyffryn Dyfrdwy Uchaf gan ddweud ei fod yn pryderu ynghylch effaith gweledol y tyrbinau. Roedd y tirwedd yn bwysig i lwyddiant busnesau lleol. Roedd y cynnig hwn wedi'i leoli ar dir Mynydd Mynyllod ac roedd Mr Jedwell o'r farn y dylid asesu'r cynigion mewn cysylltiad ag effaith cronnus twrbinau eraill. Dangosodd ddiagram yn arddangos maint y tyrbin mewn cymhariaeth â thirnodau lleol gan ddweud ei fod yn teimlo bod yr effaith gweledol yn annerbyniol.

**O blaid**
Siaradodd Rhys Jones (Ymgeisydd) o blaid y cais. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio fel milfeddyg ond yn dymuno dychwelyd i'w gartref i gefnogi ei dad oedrannus. Mae'n gobeithio bod o fudd i gymuned Llandrillo trwy wneud cyfraniad ariannol ac i sicrhau bod y fferm yn parhau. Roedd Mr Jones yn edifar bod rhai ffermwyr wedi gorfod gadael y tir oherwydd trafferthion ariannol a bod hynny'n cael effaith andwyol ar yr ysgol a'r siopau lleol.

Gofynnodd y Cynghorydd Cefyn Williams am gefnogaeth i'r cynnig hwn a fydd o fudd i'r gymuned. Er ei fod yn ymwybodol o'r gwrthwynebiadau, teimlai bod y

ffaith bod nifer o ysgolion, tafarnau a siopau yn yr ardal wedi cau yn achos pryder. Fodd bynnag, mae melinau coed lleol, Ystâd Rhug ac Ifor Williams Trailers i gyd yn ffynnu. Mae ffermio a thwristiaeth hefyd yn ddiwydiannau hanfodol yn yr ardal.

Dywedodd y Cynghorydd Joe Welsh ei fod yn teimlo y byddai un tyrbin yn ddigonol os mai cynnig ar gyfer arallgyfeirio fferm yn unig oedd hwn.

Dywedodd y Cynghorydd S. Davies ei fod yn deall y byddai 1 tyrbin yn darparu trydan i 5 tŷ. Nid oedd o blaid ffermydd gwynt mawr ond roedd yn hapus i gefnogi ffermwr ifanc.

Roedd y Cynghorydd Alice Jones hefyd yn hapus i gefnogi ffermwyr, ac roedd y Cynghorydd Huw Williams o'r farn ei bod yn annheg tynnu sylw'n benodol at un cynnig bach ar adeg pan oedd cymaint o rai mwy ar y gweill.

Rhoddodd aelodau adroddiad o'r Ymweliad Safle lle roeddynt wedi deall y byddai'r twrbinau yn debyg i'r rhai oedd yng Ngwyddelwern. Ni fyddai siafft twrbinau Sirior yn y golwg.

Dywedodd Neil Walters (Swyddog Cynllunio, Ynni Adnewyddadwy) fod ei argymhelliad yn seiliedig ar y ffaith bod y twrbinau yn lledu y tu hwnt i'r Ardal Chwilio Strategol (SSA) a bod hynny'n annerbyniol.   Roedd y Swyddog Tirwedd yn cefnogi'r safbwynt hwn. Dywedodd Mr Walters y byddai'r twrbinau i'w gweld i ryw raddau o nifer o fannau gwahanol ac y byddent yn amlwg iawn o'r Berwyn. Er mwyn bodloni "arallgyfeirio fferm", roedd yn teimlo y byddai un tyrbin yn ddigon i ddarparu pŵer i'r fferm gyda digon dros ben i ddarparu incwm ychwanegol drwy'r Grid Cenedlaethol. Roedd o'r farn bod y twrbinau mwy hyn yn symud tuag at Arallgyfeirio Gwledig.

Atgoffodd y Cynghorydd Huw Williams y pwyllgor bod ffermwyr hwythau yn ddynion busnes a oedd yn awyddus i wneud bywoliaeth.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd Rhys Hughes y dylid **RHOI CANIATAD**
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Alice Jones

**Dyma ganlyniad y bleidlais**

**14 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**12 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

Gwnaethpwyd y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad Swyddogion, oherwydd y rheswm canlynol:

Bod lles y datblygiad er budd arallgyfeirio fferm yn gwrthbwyso'r pryderon ynghylch y tirwedd a'r effeithiau gweledol.

Cytunwyd y dylai swyddogion baratoi rhestr o amodau drafft i'w hystyried a'u pennu yn y Pwyllgor Cynllunio nesaf.

**Cais Rhif:** 16/2012/1597/PF

**Lleoliad:** **Plas Canol Llanrhydd Rhuthun.**

**Disgrifiad:** Codi uchder to'r gegin yng nghefn yr annedd i greu gofod ychwanegol ar lefel y llawr cyntaf gyda ffenestri dormer i ochr yr annedd.

Ni chafwyd trafodaeth ar yr eitem hon

Cynigiodd y Cynghorydd H. O. Williams y dylid RHOI CANIATAD
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. Ll. Davies

Dyma ganlyniad y bleidlais

**PLEIDLAIS:**
**24 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**0 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

**Cais Rhif:** 22/20121/1363/PC

**Lleoliad:** **Tir ger Llidiart Fawr Llangynhafal Rhuthun**

**Disgrifiad:** Cadw mynedfa newydd anifeiliaid/cae a llidiart ddur 7-bar

Dywedodd y Cynghorydd M. Parry fod ganddo ddiddordeb yn y cais hwn

Nodwyd bod y llythyrau pellach canlynol wedi'u derbyn:

Mr I McGregor, Llidiart Fawr, Llangynhafal

Gofynnodd y Swyddogion am OHIRIO'R eitem hon er mwyn gallu asesu'n fanwl y gwrthwynebiadau hwyr a dderbyniwyd.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd M. Ll. Davies y dylid derbyn hyn.

Awgrymwyd ymhellach gan y Cynghorydd J. Thompson Hill, ac eiliwyd gan M. Ll. Davies y dylid trefnu ymweliad safle.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo, a chytunwyd y dylid GOHIRIO'R eitem hon a threfnu ymweliad safle cyn y pwyllgor nesaf.

**Cais Rhif:** 23/2012/1358/PFT

**Lleoliad:** Ffridd Fawr Prion Dinbych

**Disgrifiad:** Gosod 1 twrbin gwynt 400kw 51 metr o uchder o'r ddaear i flaen y llafnau, a chabinetau i gysylltu â'r grid, ffordd fynediad a llain galed.

Nodwyd bod sylwadau hwyr wedi'u derbyn oddi wrth asiant yr ymgeisydd

Dosbarthwyd adroddiad panel ymweliad safle (a ddigwyddodd ar Ddydd Gwener, 15 Chwefror).

**Siaradwyr Cyhoeddus**
**O BLAID:** Siaradodd Mr Richard Williams o blaid y cais hwn.
Esboniodd Mr Williams bod y twrbin arfaethedig yn cynrychioli arallgyfeirio fferm. Mae'r fferm wedi'i gosod ar hyn o bryd, ond bwriad Mr Williams oedd sicrhau bod y fferm yn dychwelyd i ddwylo'r teulu a chynhyrchu gwartheg Duon Cymreig. Byddai'r un twrbin hwn yn fwy cynhyrchiol na dau dyrbin llai. Nododd Mr Williams bod llai o lawer o wrthwynebiadau na chynnig twrbin Sirior a drafodwyd ynghynt a bod diffyg gwrthwynebiad oddi wrth Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn dangos na fyddai fawr ddim effaith ar y tirwedd.

Roedd y Cynghorydd Joe Welch o'r farn y dylid ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau. Roedd yn teimlo bod y twrbin hwn yn rhy fawr i'w ystyried o fewn arallgyfeirio fferm. Cyfeiriodd y Cynghorydd Welch at Nodyn Cyngor Technegol TAN 6 a oedd nodi bod yn rhai ystyried "natur a graddfa" y datblygiad.

Rhoddodd y Cynghorydd D. Owens adroddiad o'r ymweliad safle. Roedd yn teimlo bod mynediad i'r safle yn ddigonol ond y byddai'r twrbin dan sylw yn fwy na'r rhai yng Ngwyddelwern a'r rhai oedd wedi'u cymeradwyo yn Sirior, Llandrillo. Byddai'n weledol iawn yn Nyffryn Clwyd mewn lleoliad amlwg iawn.

Roedd y Cynghorydd S. Davies hefyd o'r farn bod y twrbin hwn yn rhy fawr o lawer, bedair gwaith yn fwy na'r un yn Sirior sef 400kw.

Mynegodd y Cynghorydd J. Butterfield y farn bod angen polisi i helpu Cynghorwyr. Nid oedd yn siŵr os oedd dau dwrbin bach yn well nag un twrbin mawr.

Cyfeiriodd Neil Walters (Swyddog Ynni Adnewyddadwy) at Dudalen 129 o'r prif adroddiad. Mae'r cynnig hwn tu allan yr Ardal Chwilio Strategol (SSA) a pheth pellter o dyrbinau eraill. Mae'n cynrychioli datblygiad ymhell tu allan i'r SSA. Mae rhannau symudol y twrbin lawer yn fwy na'r rhai yn Sirior. Ni ystyrir fod y cynllun yn arallgyfeirio fferm. Roedd yn deall bod rhai Cynghorwyr wedi derbyn llythyr oddi wrth yr ymgeisydd yn esbonio'r elfen arallgyfeirio fferm. Nid oedd y llythyr hwn wedi cael ei anfon at swyddogion ac felly ni allai ffurfio rhan o'r ystyriaeth dros ganiatáu'r cais.

Roedd y Cynghorydd Alice Jones am gefnogi ardaloedd gwledig. Yn yr achos hwn, roedd yn teimlo y byddai'r arian yn golygu bod modd cynnal a chadw adeiladau o arwyddocâd hanesyddol a fyddai fel arall yn cael eu colli. Teimlai y byddai un twrbin mawr yn fwy effeithiol. Roedd y Cynghorydd Jones o'r farn y dylai "arallgyfeirio" olygu "unrhyw gynllun dilys a oedd yn golygu bod modd cynnal y fferm a gwneud y fferm yn hyfyw".

Roedd y Cynghorydd Colin Hughes yn cefnogi'r cais gan ddyfynnu'r sylw gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru nad oedd yn ymddangos fel petai'r cynnig yn effeithio ar yr Ardal o Harddwch Eithriadol. Teimlai bod ffermio wedi llunio'r tirwedd a'i bod yn bwysig annog ffermio. Teimlai hefyd y dylid annog ynni adnewyddadwy.

Dywedodd Paul Mead wrth y pwyllgor bod Canllawiau Polisi Interim yn cael eu paratoi a byddent yn barod i gael eu mabwysiadu yn fuan. Nododd hefyd nad oedd y mater o arallgyfeirio fferm wedi'i gyflwyno fel rhan o'r cais hwn ac felly nid oedd y swyddogion wedi gallu ystyried hynny nag ymgynghori gyda'r cyhoedd ar hynny. Roedd yr argymhelliad i WRTHOD caniatad yn parhau ar fod, ond pe byddai'r pwyllgor am roi caniatad, byddai amodau yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd S. Davies y dylid GWRTHOD rhoi caniatad

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. Ll. Davies

**Dyma ganlyniad y bleidlais**

**10 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**16 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY GWRTHODWYD RHOI CANIATAD**

**Cais Rhif:** 30/2012/1413/PF

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **14 Ffordd Pen y Coed Trefnant Dinbych** |
| **Disgrifiad:** | Codi garej domestig sengl ac ymestyn y ffiniau preswyl |

Ni chafwyd trafodaeth ar yr eitem hon

Cynigiodd y Cynghorydd M. Ll. Davies y dylid RHOI CANIATAD

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd J Welch

Dyma ganlyniad y bleidlais

**PLEIDLAIS:**
**22 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**1 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**1 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

**Cais Rhif:** 44/2012/1585/PF

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Tir i gefn Letterbox Recruitment Parc Edith Rhuddlan Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | Codi 1 pâr o anheddau tŷ pâr ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau |

Dosbarthwyd adroddiad panel Ymweliad Safle a ddigwyddodd ar Ddydd Gwener, 15 Chwefror am 12.30 y prynhawn

Rhoddodd y Cynghorydd Arwel Roberts adroddiad o'r ymweliad safle ac esboniodd bod y ffordd yn cul de sac cul gyda pharcio ar hyd un ochr yn unig. Roedd yn ymwybodol bod cerbydau'r gwasanaethau brys yn cael trafferth i gyrraedd y tai ar hyd y ffordd hon a hefyd bod problemau carthffosiaeth yn yr ardal. Roedd y safle ger ffordd brysur iawn a byddai parcio ychwanegol yn achosi problemau pellach. Dywedodd nad oedd Cyngor Dinas Llanelwy o blaid y datblygiad hwn.

Roedd y Cynghorydd J. Butterfield yn cydymdeimlo gyda'r cynghorydd lleol gan esbonio bod problemau dwysedd yn Rhyl yn gallu arwain at broblemau parcio ac anghydfod rhwng cymdogion.

Esboniodd Mike Parker (Priffyrdd) bod gan y cul de sac ym Mharc Edith safle arbennig ar y pen i helpu cerbydau i droi. Roedd y cynnig yn dangos pedwar man parcio ond roedd caniatad ar gyfer fflatiau a busnes B1 hefyd yn bodoli a byddai hynny beth bynnag yn arwain at fwy o draffig.

**Cynigion:**
Cynigiodd y Cynghorydd R Hughes y dylid RHOI CANIATAD ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Julian Thompson Hill

Dyma ganlyniad y bleidlais

**18 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**8 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY RHODDWYD CANIATAD**

**Cais Rhif:** 45/2012/1519/PF

**Lleoliad:** **"Next" 56 Stryd Fawr Rhyl**

**Disgrifiad:** Newid defnydd eiddo o ddefnydd dosbarth A1 i ddefnydd dosbarth A2

**Siaradwyr Cyhoeddus: O BLAID**
Siaradodd Mr Jonathan Wadcock o blaid, a gofynnodd a fyddai modd ystyried ei sylwadau mewn perthynas â'r cais hwn a'r cais canlynol i'r un adeilad. Gofynnodd Mr Wadcock i'r pwyllgor gymeradwyo'r ddau gais er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r gwerthwyr i werthu'r eiddo. Dywedodd wrth y pwyllgor y byddai Canol Tref y Rhyl yn wynebu cystadleuaeth pan fydd Parc Adwerthu Prestatyn yn agor, a'i fod yn teimlo na fyddai siopau gwag yn cyfrannu at ddelwedd y dref fel lle bywiog. Roedd o'r farn bod y Sector Ariannol a'r Sector Bwyd a Diod yn ddichonadwy ar hyn o bryd ac na fyddai angen caniatad cynllunio i adfer yr eiddo i ddefnydd A1 pe bai'r sector adwerthu yn profi i fod yn ddewis gwell yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd J. Butterfield yn teimlo ei bod yn rhy fuan i newid defnydd yr eiddo hwn. Dylid rhoi cyfle i'r Rheolwr Canol Trefn newydd i ganfod defnydd A1 i'r safle.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd Butterfield y dylid gwrthod rhoi caniatad
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Win Mullen James

Dyma ganlyniad y bleidlais
**2 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**22 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY GWRTHODWYD RHOI CANIATAD**

**Cais Rhif:** 45/2012/1490/PF

**Lleoliad:** **“Next” 56 Stryd Fawr Rhyl**

**Disgrifiad:** Newid defnydd eiddo o ddefnydd dosbarth A1 i ddefnydd dosbarth A3

**Siaradwyr Cyhoeddus: O BLAID**
Gofynnodd Mr Wadcock i’r pwyllgor ystyried ei sylwadau fel rhan o’r cais blaenorol.

Ni chafwyd trafodaeth bellach

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid cefnogi argymhelliad swyddogion y dylid GWRTHOD caniatad
Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Win Mullen James

Dyma ganlyniad y bleidlais

**2 wedi pleidleisio i GANIATAU**
**21 wedi pleidleisio i WRTHOD**
**0 wedi Atal Pleidlais**

**FELLY GWRTHODWYD RHOI CANIATAD**

**EITEM 6**

## CYTUNDEB PERFFORMIAD CYNLLUNIO (PPA) FFERM WYNT FFOREST CLOCAENOG

**Cyflwynwyd, adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus**
Mae’r adroddiad hwn yn codi gan fod RWE Npower Renewables (Ymgeisydd) wedi cynnig dod i Gytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Conwy mewn cysylltiad â gwaith ynghylch cais Fferm Wynt Fforest Clocaenog i’w gyflwyno i’r Arolygiaeth Gynllunio yn y dyfodol agos.

Esboniodd Neil Walters, (Swyddog Cynllunio Ynni Adnewyddadwy) bod hyn yn golygu y byddai’n rhaid i’r Cynghorau weithio tu allan unrhyw geisiadau cynllunio ac y byddai hefyd yn gadael i’r datblygwr gyfrannu’n ariannol at y gwaith ychwanegol fyddai ei angen. Ni fyddai unrhyw wrthdaro o ran buddiannau gan mai’r Arolygiaeth Gynllunio fyddai’n gwneud y penderfyniadau ar y datblygiad ei hunan ac nid y Cyngor.

Cynhaliwyd pleidlais a phasiwyd yr argymhelliad o 24 pleidlais i 0:

Felly penderfynwyd

Bod y Pwyllgor yn cytuno y dylai Cyngor Sir Ddinbych drefnu’r Cytundeb Perfformio Cynllunio (PPA) a gynigiwyd gan RWE Npower Renewables mewn perthynas â rheoli’r broses DCO gyflawn.
4.2 Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo llofnodi’r PPA unwaith bo’r Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus yn fodlon bod modd i’r Cyngor wireddu’r holl oblygiadau perthnasol a bod y lefel ariannu yn ddigonol

## EITEM 7

## YMGYNGHORIAD DAN ADRAN 42 O'R DDEDDF GYNLLUNIO 2008

## FFERMYDD GWYNT FFOREST DYFNANT (POWYS)

Cyflwynwyd, adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus.

Mae'r adroddiad hwn yn codi yn sgil derbyn hysbysiad gan Scottish Power Renewables (SPR) o'u bwriad i gyflwyno ymgynghoriad dan Adran 42 o Ddeddf Gynllunio 2008 mewn perthynas â datblygiad twrbin gwynt yn Fforest Dyfnant, Powys. Rhoddir cyfle i'r Cyngor wneud sylw ar y datganiad amgylcheddol drafft a manylion eraill o'r cynnig fel Awdurdod Lleol cyfagos.
Gan fod yr amserlen yn dynn ar gyfer ymateb i'r hysbysiad hwn, a'r ffaith nad yw ymatebion o'r fath yn swyddogaethau dirprwyedig, mae'n hanfodol codi'r mater yn y Pwyllgor yn gynnar er mwyn dod i benderfyniad a fydd yn rhoi cyfle i Swyddogion ymateb ar ran y Cyngor.

Cododd aelodau bryderon o ran a fyddai twrbinau mawr yn effeithio ar briffyrdd Sir Ddinbych. Roedd Mike Parker (Swyddog Priffyrdd) o'r farn y byddai'r cerbydau mawr yn defnyddio'r Cefnffyrdd, yn bennaf tu allan i Sir Ddinbych, ond nid oedd hyd yma yn ymwybodol o'r ffyrdd a fyddai'n cael eu defnyddio. Byddai'n holi gweithwyr Cefnffyrdd y Cynulliad Cenedlaethol pe byddai angen gwneud hynny.

**Cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhelliad**
**22 pleidlais o blaid**
**1 bleidlais yn erbyn**
**Ataliwyd 1 bleidlais**

Felly penderfynwyd y dylid dirprwyo'r ymateb terfynol ar Ymgynghoriad Adran 42 i Swyddogion, mewn ymgynghoriad ag aelodau lleol (Corwen and Llandrillo). Dylid hysbysu Powys y byddai gan Sir Ddinbych o bosibl bryderon priffyrdd ynghylch cludo'r twrbinau, ond bod hynny'n amodol ar y ffyrdd a fyddai'n cael eu defnyddio.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:15**